# Strategaeth Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd

## Rhaglen Frechu Cymru

**Cyfrifoldeb am y Ddogfen: Clare Williams,** Uwch-berchennog Risg (SRO).

**Cynhyrchydd: Christopher Johnson,** Pennaeth Rhaglen Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu (VPDP).

**Cymeradwywr: Bwrdd Goruchwylio Brechu Llywodraeth Cymru**

| Fersiwn: | Cymeradwywyd gan: | Dyddiad: |
|---|---|---|
| 1 | | |
| | | |

# Y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol

Cyhoeddwyd Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol (NIF) Cymru ym mis Hydref 2022. Mae'r fframwaith yn pennu'r blaenoriaethau strategol eang ar gyfer gwasanaethau brechu ledled Cymru ac mae'n gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol imiwneiddio yng Nghymru. Y nod yw bod nifer uchel o bobl yn derbyn brechlyn effeithiol a ddarperir yn gynaliadwy, ar yr adeg iawn, i leihau marwolaethau ac afiachedd.

Mae hefyd yn cydnabod bod angen gwasanaethau brechu sy'n glir, fel bod dinasyddion yn gwybod pa frechiadau y maent yn gymwys i'w cael a sut i'w cael.

Mae llythrennedd brechu ymhlith y 6 blaenoriaeth yn yr NIF, sy'n disgrifio'r canlyniadau dymunol a ganlyn:

- Rydym am i bawb yng Nghymru gydnabod pwysigrwydd brechu a mynediad a chyfle teg i fanteisio ar y cynnig o frechiad.


- Meddu ar wybodaeth glir a chyfathrebu cadarn sy'n hanfodol i alluogi'r cyhoedd i ddeall pwysigrwydd brechu.

- Dylid cydgynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion gyda dinasyddion, y trydydd sector a chyrff perthnasol y GIG.

- Gweithlu'r GIG sy'n cydnabod pwysigrwydd brechu, a'u rôl o ran annog pobl i gael eu brechu ac o ran bod yn esiampl i eraill.

- Rhoddir ystyriaeth i sut y gall lleisiau y mae pobl yn ymddiried ynddynt gefnogi rhaglenni brechu drwy ddarparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o frechu ymysg grwpiau â lefelau is o ran derbyn brechiadau a grwpiau agored i niwed.

Y strategaeth Llythrennedd Brechu hon yw allbwn cyntaf y ffrwd waith Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd o fewn Rhaglen Weithredu ehangach NIF (Ffigur 1).




*Ffigur 1: Ffrydiau gwaith Rhaglen Weithredu'r NIF (Medi 2023)*

## Y Ddyletswydd Ansawdd

Ym mis Ebrill 2023 cyflwynwyd Dyletswydd Ansawdd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a roddodd ddyletswydd ar y GIG yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau.

**Diogelwch -** dylai gwasanaethau allu dangos, trwy dystiolaeth ddibynadwy, eu bod yn ddiogel a bod gan ymyriadau fwy o fanteision na risgiau:

**Effeithiolrwydd –** dylid gwerthuso gwasanaethau a phrofi eu bod yn effeithiol.

**Canolbwyntio ar y claf –** dylai gwasanaethau allu dangos eu bod yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn weithredol â'r rhai sy'n eu defnyddio a rhanddeiliaid i asesu eu profiadau fel rhan o barhau i wella.

**Amseroldeb –** dylai gwasanaethau allu ymateb yn brydlon.

**Effeithlonrwydd –** dylai gwasanaethau allu dangos bod gwelliannau i iechyd yn cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithlon.

**Tegwch -** dylai gwasanaethau gadw at egwyddor sy'n penderfynu beth sy'n deg wrth ddosbarthu gofal iechyd.

**Blwch 1: Meysydd o Ansawdd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mae'r ddyletswydd ansawdd yn mynnu dull gweithredu system gyfan sy'n gofyn am ddiwylliant sy'n rhoi dysgu a gwelliant parhaus wrth ei wraidd. Dylai diffiniad a dealltwriaeth glir o sut beth yw ansawdd da, gan ddefnyddio safonau cenedlaethol a meincnod, adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau, fod yn sail i hyn. Mae angen i'r strategaeth llythrennedd brechu ystyried sut mae ansawdd gwybodaeth gyhoeddus yn cael ei ddiffinio, ei gyflawni a'i wella.

## Beth yw Llythrennedd Brechu

Mae'n bwysig cael dull cyson o ddiffinio'r term allweddol er mwyn gallu datblygu dull cyson o wella llythrennedd brechu.

**Llythrennedd** – Y gallu i ddarllen, ysgrifennu, siarad, a gwrando ar lefel sy'n galluogi unigolyn i gyfathrebu'n effeithiol, deall gwybodaeth ysgrifenedig a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas.[1]

**Llythrennedd iechyd** – Gallu a lefel cymhelliant unigolyn i gyrchu, deall, cyfathrebu, a gwerthuso gwybodaeth naratif a rhifol i hybu, rheoli a gwella ei statws iechyd drwy gydol ei oes. Mae hyn yn ymgorffori sgiliau iaith, llythrennedd a rhifedd a ddefnyddir mewn lleoliadau iechyd ac ar gyfer rheoli iechyd, yn ogystal â'r gallu i gyrchu, deall, gwerthuso, defnyddio a llywio gwybodaeth a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llythrennedd iechyd unigolyn yn dibynnu ar ei

[1] Beth yw Llythrennedd? | Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol | Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol

allu eu hunan ac ar ymdrechion systemau iechyd a gofal cymdeithasol i wneud eu gwasanaethau a'u gwybodaeth yn glir ac yn hygyrch i bawb.[2]

**Llythrennedd iechyd swyddogaethol** – gallu unigolyn i ddarllen a deall gwybodaeth a chyfarwyddiadau mewn lleoliadau iechyd. Mewn lleoliad gofal iechyd byddai hyn o leiaf yn trosi fel y gallu i ddarllen a deall gwybodaeth (e.e. llythyrau apwyntiad neu wybodaeth i gleifion). Bydd pobl â sgiliau darllen a rhifedd annigonol yn cael llai o gysylltiad â gwybodaeth iechyd gyffredinol, a bydd y sgiliau sydd eu hangen i ddeall a gweithredu ar wybodaeth iechyd yn llai datblygedig.

**Llythrennedd iechyd rhyngweithiol** – gallu unigolyn i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu hiechyd a'u gofal dros amser, ac mewn amgylchiadau sy'n newid.

**Llythrennedd iechyd critigol -** Mae hyn yn cynnwys Llythrennedd Iechyd Rhyngweithiol, yn ogystal â'r gallu i fynegi eich hun mewn trafodaeth am faterion neu gyflyrau meddygol cymhleth, adnabod eich amgylchedd eich hun, a materion o safbwynt iechyd y cyhoedd ehangach.

**Llythrennedd brechu -** Llythrennedd iechyd sy'n ymwneud yn benodol â brechiadau, imiwneiddio a chlefydau y gellir eu hatal â brechlyn a'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â nhw.

## Iechyd a Llythrennedd Brechu yng Nghymru

Astudiaeth yng Nghymru yn defnyddio data Doeth am Iechyd Cymru [3] a edrychodd ar lythrennedd iechyd oedolion sy'n defnyddio'r offeryn Llythrennedd Iechyd Ewropeaidd, a ganfu fod gan 38% o 2258 o ymatebwyr lefelau llythrennedd iechyd gwael neu broblemus. Roedd lefelau llythrennedd iechyd gwael neu broblemus yn gysylltiedig â'r rhywedd gwrywaidd ac amddifadedd ar lefel ardal. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad "hyd yn oed yng nghyd-destun defnyddwyr rhyngrwyd sy'n ymwybodol o iechyd, mae gan gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru lefel o lythrennedd iechyd a allai gyfyngu ar eu gallu i ganfod, asesu'n feirniadol a gweithredu ar wybodaeth iechyd."

Mae'r canfyddiad hwn wedi'i ategu gan astudiaeth DU gyfan ddiweddar yn seiliedig ar ddealltwriaeth o wybodaeth iechyd a'r gallu i ymgysylltu'n weithredol â meysydd gofal iechyd yr Holiadur Llythrennedd Iechyd. Roedd hyn hefyd yn dangos bod llythrennedd iechyd is yn gysylltiedig â byw mewn ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol a bod â chyflwr iechyd neu anabledd cyfyngol.

Canfu astudiaeth agwedd ddiweddar a gomisiynwyd gan y Rhaglen Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu yn edrych ar wybodaeth frechu a gynhyrchwyd yng Nghymru fod anghydraddoldebau yn bodoli o ran y tebygolrwydd o fod wedi gweld gwybodaeth frechu a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu o fod yn ymwybodol o raglenni brechu cenedlaethol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl o Gefndiroedd Ethnig Leiafrifol

[2] Puntoni S. Llythrennedd Iechyd yng Nghymru Dogfen gwmpasu ar gyfer Cymru. Cyhoeddwyd Ar-lein yn Gyntaf: 2010. http://www.nap.edu/catalog/10883.html (cyrchwyd 12 Ionawr 2023).

[3] Ashfield-Watt, P., Tseilou, F., a Paranjpthy, S. (2020) Llythrennedd iechyd ac iechyd meddwl yng Nghymru: arolwg poblogaeth ar-lein cenedlaethol. Ar gael yn: https://hww.uat.ctr.cardiff.ac.uk/for-researchers/?lang=cy (Cyrchwyd: 20 Chwefror 2024)

- Y rhai sy'n hŷn na 55 oed
- Pobl LHDTC+
- Myfyrwyr llawnamser.
- Y rhai o gefndiroedd difreintiedig


Canfu'r un astudiaeth hefyd fod gwahaniaethau sylweddol yn y canfyddiad o ddifrifoldeb, a bod pobl o gefndiroedd leiafrifol ethnig a phobl LHDTC+ yn fwy tebygol o raddio nifer o glefydau y mae rhaglen frechu Cymru yn amddiffyn rhagddynt fel rhai nad ydynt yn ddifrifol.

Er bod mwyafrif y bobl a holwyd yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch a ddylid cael brechiadau ai peidio, mae grwpiau oedran iau (16-24) a phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am frechu

Wrth edrych ar ddibynadwyedd ffynonellau, yr wybodaeth ganlynol sydd â'r sgorau uchaf o ran 'ymddiried llawer': Taflenni'r GIG (74%), meddygon/nyrsys/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill (71%), gwefan y GIG (70%), fferyllwyr neu bobl eraill mewn fferyllfeydd (69%), a gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru (67%). Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw hi i systemau'r GIG a gofal cymdeithasol allu trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf glir a hygyrch. Er bod rhai yn ymddiried llai mewn Ffrindiau/Teulu/Cydweithwyr (33%), ymddiriedir mwy ynddynt o hyd na chyfryngau cymdeithasol (25%) a gwefannau eraill (19%), sy'n dangos pwysigrwydd rhoi gwybodaeth i unigolion y gellir ymddiried ynddynt fel rhieni neu arweinwyr crefyddol er mwyn eiriol dros gael brechlynnau.

## Amcanion Strategol

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol gan y fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol mae'r strategaeth yn defnyddio tri maes allweddol (Ffigur 2) i grynhoi'r gwahanol ddulliau o wella llythrennedd brechu ac ansawdd gwybodaeth gyhoeddus.




*Ffigur 2: Meysydd Strategaeth Llythrennedd Brechu*

## Maes 1 - Llythrennedd Brechu i Bawb

### Amcanion Eang

- Sicrhau bod adnoddau gwybodaeth o safon uchel ar gael i gleifion a'r cyhoedd ar gyfer pob rhaglen frechu sy’n ystyried gwahanol anghenion llythrennedd brechu swyddogaethol y boblogaeth, ac sy’n cael eu profi gyda’u cynulleidfa darged
- Meddu ar ddealltwriaeth dda o agweddau'r cyhoedd, a gwybodaeth am frechlynnau a chlefydau y gellir eu hatal â brechlyn, i gefnogi cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth
- Sicrhau cynnwys a chyfryngau cyflwyno wedi’u personoli sy'n bodloni anghenion dealledig y gynulleidfa darged er mwyn sicrhau'r effaith a'r hygyrchedd mwyaf posibl
- Defnyddio mewnwelediad, gwyddor ymddygiad, a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob cyfathrebu cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cyflawni gwelliannau ym maes llythrennedd brechu rhyngweithiol
- Sicrhau bod yr holl adnoddau gwybodaeth yn cael eu cynhyrchu ar y cyd â'r gynulleidfa arfaethedig
- Sicrhau amseroldeb gwybodaeth i wneud yn siŵr ei bod ar gael adeg gwneud penderfyniadau
- Eiriol dros frechu i fod yn rhan o’r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, wedi’i gefnogi gan offer sy’n seiliedig ar dystiolaeth a dysgu sy’n briodol i oedran er mwyn cefnogi penderfyniadau am eu gofal eu hunain ond hefyd i ddylanwadu ar deuluoedd a chymunedau.
- Darparu offer i adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth.

### Amcanion Wedi’u Targedu

- Meddu ar ddealltwriaeth dda o ba grwpiau sydd â lefelau is o lythrennedd brechu rhyngweithiol a swyddogaethol a sut i gyfathrebu â nhw
- Meddu ar gynhyrchion pwrpasol i fynd i'r afael ag anghenion mewn grwpiau targed
- Deall effaith ymyriadau wedi'u targedu ar ganlyniadau sylfaenol (e.e. gwybodaeth am frechlynnau) ac eilaidd (e.e. nifer y rhai sy'n cael brechlyn) mewn grwpiau llythrennedd brechu isel.

## Maes 2 - Llythrennedd Brechu mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol

### Amcanion Eang

- Sicrhau bod gan holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol sylfaen gytûn o sgiliau gwybodaeth a mynediad at wybodaeth i weithredu fel eiriolwyr ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt.
- Sicrhau bod gan yr holl staff sy’n delio â’r cyhoedd mewn gwasanaethau brechu ddigon o wybodaeth a gallu i ateb cwestiynau priodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chyfeirio lle bo angen.
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol allweddol a all gael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth gydol oes mewn brechiadau (e.e. bydwragedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol ac ati) yn meddu ar wybodaeth frechu fel rhan allweddol o’u hyfforddiant
- Rhoi gwybodaeth a sgiliau i staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth

### Amcanion wedi'u targedu

- Sicrhau bod holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gweithio gyda grwpiau neu gymunedau y nodwyd bod ganddynt lefelau is o lythrennedd iechyd yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â nhw i sicrhau bod eu hanghenion gwybodaeth yn cael eu diwallu a bod pob cyswllt yn cyfrif.

## Maes 3 - Llythrennedd brechu ymhlith eiriolwyr cymunedol

### Amcanion Eang

- Deall pwy yw'r arweinwyr dibynadwy a dylanwadol o fewn y gymdeithas ehangach (e.e. athrawon, arweinwyr cymunedol) i gefnogi ymgysylltu cymunedol ac eiriolaeth.
- Meddu ar offer i hyrwyddo methodolegau gwneud i bob cyswllt gyfrif y tu allan i leoliadau gofal iechyd

- Gweithio gyda dylanwadwyr cymunedol a phorthgeidwaid (e.e. cymedrolwyr grwpiau sgwrsio) i gefnogi mynediad grwpiau caeedig at negeseuon hybu iechyd
- Sicrhau bod gan eiriolwyr cymunedol yr wybodaeth a'r offer sydd ar gael i deimlo'n hyderus wrth ymateb i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth

### Amcanion Wedi'u Targedu

- Datblygu dulliau sy'n seiliedig ar asedau o ymgysylltu â chymunedau â llythrennedd brechu isel.
- Dylid gwerthuso pob ymyriad yn gadarn a'i ehangu lle bo'n briodol

# Argymhellion

Gwneir yr argymhellion a ganlyn er mwyn datblygu'r strategaeth ymhellach:

Creu grŵp gorchwyl a gorffen i wneud y canlynol:

- Pennu'r camau nesaf gan gynnwys amlinellu'r offer, safonau ac adnoddau eraill sydd eu hangen i alluogi'r canlyniadau yn y strategaeth
- Datblygu cynllun cyflenwi ar gyfer datblygu'r offer, yr adnoddau a'r safonau hyn
- Datblygu cynllun gweithredu wedi'i gostio i roi'r dulliau a'r offer y cytunwyd arnynt ar waith mewn busnes fel arfer

GIG CYMRU NHS WALES
Rhaglen Frechu Cymru
Vaccination Programme Wales

# Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Prosiect Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd

**Drafft terfynol v0.2**

**16 Gorffennaf 2024**

**Cynhyrchydd: Christopher Johnson,** Pennaeth Rhaglen Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu (VPDP).

| Fersiwn: | Cymeradwywyd gan: | Dyddiad: |
|---|---|---|
| 0.2 | Grŵp Prosiect Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd | 16/07/2024 |
| | | |

# Cyflwyniad

Ym mis Mai 2024 cymeradwyodd y Bwrdd Trawsnewid Brechu Strategaeth Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd Cymru fel allbwn allweddol o'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol. Roedd elfennau allweddol y strategaeth yn driphlyg, sef:

1. Gwella Llythrennedd Brechu i bob dinesydd
2. Gwneud systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy llythrennog o ran brechlynnau
3. Gwella llythrennedd brechu ymhlith eiriolwyr a dylanwadwyr cymunedol

Gosododd y strategaeth amcanion a gynlluniwyd i wella ansawdd yr wybodaeth frechu a ddarperir i'r cyhoedd a datblygu gwybodaeth am frechlynnau o fewn cymunedau. Yn benodol, gosododd y strategaeth amcanion ar gyfer sicrhau y gall arweinwyr barn allweddol eiriol dros frechu gyda'u cymuned, cleifion a disgyblion.

Ar ôl cytuno ar y strategaeth, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried pa offer neu adnoddau y gallai fod eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth. Mae'r adroddiad hwn yn darparu argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw.

# Offer a Chynhyrchion

Adolygodd y grŵp gorchwyl a gorffen yr amcanion strategol ac ystyriodd sut y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni (Atodiad 1) gan y prosiect. Roedd yn cynnig 3 maes gwaith eang.

## 1) Safonau Gwybodaeth Frechu

Er mwyn cyflawni'r nodau strategol sy'n ymwneud â darparu adnoddau gwybodaeth cyson o ansawdd uchel i'r cyhoedd yn seiliedig ar fewnwelediad ac angen ac i gefnogi'r nod o gydgynhyrchu'r adnoddau hynny â'r gynulleidfa darged, cynigiodd y grŵp gorchwyl a gorffen set o safonau gwybodaeth frechu ( Atodiad 2).

Ar ôl derbyn y safonau hyn bydd angen cynnal archwiliad priodol ar arferion cyfredol, nodi'r bylchau, a datblygu cynlluniau gweithredu. Bydd angen ystyried y cynlluniau gweithredu a deall cost newidiadau mewn ymarfer fel rhan o'u gweithredu'n llawn.

## 2) Hyfforddiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol

Cytunodd y grŵp gorchwyl a gorffen y byddai modiwl hyfforddi gorfodol byr yn cefnogi datblygiad gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol gwybodus. Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn bwysig bod staff iechyd a gofal cymdeithasol ill dau yn

a) Cydnabod pwysigrwydd cael eu brechu er mwyn amddiffyn eu hunain a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt
b) Gallu eiriol dros frechu gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt

O ganlyniad, mae'n rhaid i unrhyw becyn hyfforddi fynd y tu hwnt i frechiadau staff, a rhoi sylw i agweddau fel yr amserlen frechiadau bresennol, y sylfaen dystiolaeth ar gyfer brechlynnau, sut y gwneir penderfyniadau ynghylch pa frechlynnau i'w cynnig a diogelwch brechlynnau. Bydd hyn yn cefnogi staff i herio camsyniadau a chamwybodaeth am frechlynnau gyda'u cleifion.

Amlygodd grŵp gorchwyl a gorffen fod yn rhaid i'r hyfforddiant fod yn seiliedig ar fewnwelediadau i ymwybyddiaeth ac agweddau at frechu a rhwystrau i eiriolaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gallu mynd i'r afael â'r angen.

### 3) Cefnogaeth ym maes Addysg

Cytunodd y grŵp gorchwyl a gorffen fod angen darn o waith mwy hirdymor i wella lefel sylfaenol dealltwriaeth o frechlynnau yn y boblogaeth drwy well offer ym maes addysg.  Bydd datblygu a chefnogi'r gwaith o ddarparu adnoddau addysg o ansawdd uchel fel rhan o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn yr hirdymor yn cynyddu dealltwriaeth y boblogaeth o bwysigrwydd brechlynnau ar draws cwrs bywyd.

Mewn dull tebyg i'r un gyda staff gofal iechyd, mae angen casglu mewnwelediad i agweddau staff ysgol ynghylch hyrwyddo ac eiriol dros frechu mewn ysgolion.  Mae athrawon a staff ysgol yn ddylanwadwyr allweddol ar agweddau cymunedol at frechu, ac mae'n bwysig ceisio ymgysylltu â staff ysgol i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i eiriol dros frechu yn eu cymuned.

## Y Camau Nesaf

Yn dilyn derbyn yr adroddiad cynigir y canlynol

1. Bod **pob Bwrdd Iechyd Lleol** yn cynnal arolwg o adnoddau gwybodaeth i gleifion a ddefnyddir yn eu hardal gan gynnwys gofal sylfaenol, i gefnogi'r pontio i ddefnyddio adnoddau gwybodaeth i gleifion o ansawdd uchel.  Arolwg i'w gwblhau erbyn Mawrth 2025.
2. Bod **pob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth** yn archwilio adnoddau gwybodaeth i gleifion y maent yn eu cynhyrchu ac yn eu cynhyrchu, yn eu cymharu â safonau gwybodaeth ac yn datblygu cynllun gweithredu i wella cydymffurfiaeth â'r safon.  Archwiliadau a chynlluniau gweithredu i'w cwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Yr is-grŵp cyfathrebu ac ymgysylltu fydd yn goruchwylio'r gwaith hwn.
3. Bod **Rhaglen Frechu Cymru (VPW)** yn archwilio proses ar gyfer sicrwydd parhaus ynghylch cydymffurfio â'r safon a gwelliant.
4. Bod **VPDP** yn sefydlu grŵp gorchwyl erbyn mis Medi 2024 i ddatblygu pecyn hyfforddi staff y GIG yn seiliedig ar fewnwelediad erbyn mis Ebrill 2025.  Yr is-grŵp gweithlu ac hyfforddiant fydd yn goruchwylio'r gwaith hwn.
5. **VPW / LIC / VPDP** i drafod cynnwys y pecyn hyfforddi staff iechyd a gofal cymdeithasol mewn hyfforddiant gorfodol.
6. Bod **VPDP** yn datblygu cynllun i brofi arloesedd a fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysg frechu yn y cwricwlwm gan gynnwys darparu hyfforddiant i athrawon a staff ysgol ar bwysigrwydd brechu erbyn Ebrill 2025.

# Atodiad 1: Cynhyrchion i gwrdd ag amcanion strategol

| **Amcan** | **Safon Gwybodaeth Frechu** | **Addysgu gweithwyr iechyd** | **Cymorth i ysgolion** | **Gweithgarwch busnes fel** |
|---|---|---|---|---|
| - Sicrhau bod adnoddau gwybodaeth i gleifion a'r cyhoedd o safon uchel ar gael ar gyfer pob rhaglen frechu sy'n ystyried gwahanol anghenion llythrennedd brechu swyddogaethol y boblogaeth, ac sy'n cael eu profi gyda'u cynulleidfa darged | ✓ | | | |
| - Meddu ar ddealltwriaeth dda o agweddau'r cyhoedd, a gwybodaeth am frechlynnau a chlefydau y gellir eu hatal â brechlyn, i gefnogi cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth | ✓ | | | ✓ |
| - Sicrhau cynnwys a chyfryngau cyflwyno wedi'u personoli sy'n bodloni anghenion dealledig y gynulleidfa darged er mwyn sicrhau'r effaith a'r hygyrchedd mwyaf posibl | | | | ✓ |
| - Defnyddio mewnwelediad, gwyddor ymddygiad, a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob cyfathrebu cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cyflawni gwelliannau ym maes llythrennedd brechu rhyngweithiol | ✓ | | | |
| - Sicrhau bod yr holl adnoddau gwybodaeth yn cael eu cynhyrchu ar y cyd gyda'r gynulleidfa arfaethedig | ✓ | | | |
| - Sicrhau amseroldeb gwybodaeth i wneud yn siŵr ei bod ar gael ar adeg gwneud penderfyniadau | ✓ | | | ✓ |
| - Eiriol dros frechu i fod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, wedi'i gefnogi gan offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dysgu sy'n briodol i oedran er mwyn cefnogi penderfyniadau am eu gofal eu hunain ond hefyd i ddylanwadu ar deuluoedd a chymunedau. | | | ✓ | |
| - Darparu offer i adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth | | | ✓ | |
| - Sicrhau bod gan holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol sylfaen gytûn o sgiliau gwybodaeth a mynediad at wybodaeth i weithredu fel eiriolwyr ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt. | | ✓ | | |
| - Sicrhau bod gan yr holl staff sy'n delio â'r cyhoedd ym maes gwasanaethau brechu ddigon o wybodaeth a gallu i ateb cwestiynau priodol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chyfeirio lle bo angen | | ✓ | | ✓ |
| - Sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol allweddol a all gael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth gydol oes mewn brechiadau (e.e. bydwragedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol ac ati) wybodaeth frechu fel rhan allweddol o'u hyfforddiant | | ✓ | | ✓ |
| - Rhoi gwybodaeth a sgiliau i staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth | | ✓ | | ✓ |
| - Deall pwy yw'r arweinwyr dibynadwy a dylanwadol o fewn y gymdeithas ehangach (e.e. athrawon, arweinwyr cymunedol) i gefnogi ymgysylltu cymunedol ac eiriolaeth. | | | ✓ | ✓ |
| - Meddu ar offer i hyrwyddo methodolegau gwneud i bob cyswllt gyfrif y tu allan i leoliadau gofal iechyd | | | ✓ | ✓ |
| - Gweithio gyda dylanwadwyr cymunedol a phorthgeidwaid (e.e. cymedrolwyr grwpiau sgwrsio) i gefnogi mynediad grwpiau caeedig at negeseuon hybu iechyd | | | ✓ | ✓ |
| - Sicrhau bod gan eiriolwyr cymunedol yr wybodaeth a'r offer sydd ar gael i deimlo'n hyderus wrth ymateb i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth | | | ✓ | ✓ |

# Atodiad 2: **Safonau Gwybodaeth Frechu Cymru**

Mae'r safonau hyn yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan adnoddau gwybodaeth newydd neu wedi'u hailgynllunio i'r cyhoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau brechu a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o raglenni brechu arferol a seiliedig ar risg GIG Cymru.

**Bwriad Strategol**

Mae Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru yn nodi'r bwriad strategol ynghylch llythrennedd brechu yng Nghymru. Mae'n gosod yr uchelgeisiau canlynol

- Rydym am i bawb yng Nghymru gydnabod pwysigrwydd brechu
- Dylai cleifion gael gwybodaeth glir a chyfathrebiadau cadarn wedi'u llywio gan fewnwelediadau ac sy'n adlewyrchu safbwyntiau'r ystod ehangaf o leisiau er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.
- Disgwyliwn i ddeunyddiau gwybodaeth am frechu i gleifion gael eu cydgynhyrchu â dinasyddion, y trydydd sector a chyrff perthnasol y GIG.

## Cwmpas

Nid yw'r canlynol o fewn cwmpas y safonau hyn:

- cyfathrebiadau ar sefyllfa o argyfwng neu frigiadau o achosion
- gwybodaeth a ddarperir trwy gyfweliadau â'r cyfryngau neu mewn ymateb i ymholiadau'r wasg
- gwybodaeth wedi'i theilwra a ddarperir ar sail un-i-un mewn sgyrsiau rhwng clinigwyr a defnyddwyr gwasanaeth (e.e. mewn ymateb i ymholiadau clinigol unigol neu anghenion penodol)

### Diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y safon hon

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Adnoddau | Yr holl ddeunydd a gynhyrchir i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol<br>- Taflenni gwybodaeth i gleifion<br>- Posteri/Cardiau post neu daflenni<br>- Cardiau cofnodi<br>- Cynnwys neu bostiadau cyfryngau cymdeithasol<br>- Fideos a chyfryngau clyweledol<br>- Cynnwys ar y we<br>- Llythyrau gwahoddiad neu apwyntiad<br>- Adnoddau addysgol |
| Adnoddau Gwybodaeth i Gleifion | Taflenni neu gynnyrch digidol i'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y brechlynnau y mae pobl yn eu cynnig fel rhan o raglenni brechu GIG Cymru, neu eu hôl-ofal. |
| Adnoddau addysgol | Adnoddau wedi'u datblygu i gefnogi addysgu neu ddysgu am frechlynnau, eu heffaith a'r clefydau y maent yn eu hatal. |
| Cydgynhyrchu | Wrth gydgynhyrchu, mae darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr yn cydweithio. Mae hyn yn caniatáu perthynas gyfartal rhwng staff a phobl â phrofiad bywyd. |

## Safonau

### Safon 1 - Diwallu Anghenion Gwybodaeth Defnyddwyr

**Pam mae hyn yn angenrheidiol**

Er mwyn i adnoddau fod yn effeithiol mae angen iddynt fynd i'r afael ag angen cyffredinol neu benodol yn y boblogaeth darged. Wrth ddatblygu adnoddau effeithiol sy'n gwella llythrennedd brechu cleifion, ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau, mae'n rhaid deall yr angen hwnnw a sicrhau bod yr adnodd yn ei ddiwallu'n effeithiol.

**Arferion Gorau**

Mae gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth bersbectif gwahanol i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal iechyd. Bydd cydgynhyrchu a chynnwys defnyddwyr wrth gynhyrchu gwybodaeth iechyd yn sicrhau ei bod yn berthnasol, yn hawdd ei deall ac yn hygyrch. Gall cynnwys defnyddwyr wrth ddatblygu'r wybodaeth helpu i sicrhau bod y

**Safon 1.1** – Dylai'r cynnwys a ddarperir yn yr holl adnoddau gwybodaeth i gleifion gael ei lywio gan fewnwelediad a gasglwyd gan y gynulleidfa darged. Fel isafswm, dylid profi adnoddau gyda'r gynulleidfa darged.

**Safon 1.2** – Dylai'r holl adnoddau gwybodaeth i gleifion gyfeirio at wybodaeth ychwanegol ddibynadwy pan fo ar gael

**Safon 1.3** – Dylai'r holl adnoddau gwybodaeth i gleifion hwyluso adborth gan ddefnyddwyr ar ansawdd, priodoldeb a hygyrchedd gwybodaeth er mwyn galluogi gwella ansawdd

**Safon 1.4 –** Dylid cynnig neu gyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at adnoddau cleifion priodol sy'n adlewyrchu anghenion unigol y claf cyn apwyntiad brechu.

**Safon 1.5 –** Dylai sefydliadau'r GIG sy'n cyhoeddi adnoddau ystyried fformat dewisol y defnyddiwr gwasanaeth a hygyrchedd digidol. Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth na allant gael gafael ar wybodaeth yn ddigidol o bosibl.

**Safon 1.6** – Dylai adnoddau gwybodaeth i gleifion a grëir at ddiben penodol cefnogi cydsyniad ar sail gwybodaeth fodloni'r gofyniad gwybodaeth sylfaenol a nodir ym Mhennod 2 Llyfr Gwyrdd y DU.

## Safon 2 – Adlewyrchu anghenion iaith/hygyrchedd y defnyddiwr

**Pam mae hyn yn angenrheidiol**

Er mwyn i adnoddau fod yn effeithiol, mae angen i'r rhai sy'n derbyn yr wybodaeth eu deall. Mae rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu adnoddau yn Gymraeg a Saesneg ac ar gyfer y rhai ag amhariad ar y synhwyrau.

**Arferion Gorau**

WLau eraill ar wybodaeth hygyrch

**Safon 2.1** – Dylid cynhyrchu'r holl adnoddau gwybodaeth i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg

**Safon 2.2 -** Dylid darparu'r holl adnoddau gwybodaeth i gleifion mewn fformatau hygyrch ar gyfer cleifion ag amhariad ar y synhwyrau, neu'r rhai nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gan gynnwys:

- Defnydd o Saesneg clir a Chymraeg Clir
- Fformat Hawdd ei Ddeall yn bennaf ar gyfer y rhai sydd ag anabledd dysgu, ond hefyd ar gyfer eraill fel y rhai â lefel isel o lythrennedd, neu sydd â mamiaith heblaw Cymraeg a Saesneg
- Digidol ar gyfer y rhai sydd angen BSL (fideo) a fformat sain.

**Safon 2.3 -** Rhaid i'r holl adnoddau gwybodaeth a gynhyrchir i'r cyhoedd mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg gael rheolaeth ansawdd gyfatebol i sicrhau bod gan yr iaith a ddefnyddir yr un cywirdeb, derbynioldeb a hygyrchedd i adnoddau Cymraeg a Saesneg sy'n bodloni Safonau Gwybodaeth Frechu Cymru.

## Safon 3 - Cyfathrebu sy’n Seiliedig ar Ymddygiad

**Pam mae hyn yn angenrheidiol**

Mae ymddygiad yn weithred, mae'n rhywbeth rydyn ni'n ei wneud sy'n fesuradwy. Os ydych chi'n ymdrechu i gael unigolion neu grwpiau o fewn y boblogaeth i ddechrau, stopio neu newid ymddygiad, gall gwyddor ymddygiad helpu i gyflawni'r newid a ddymunir.

**Arferion Gorau**

Mae pecyn cymorth i gefnogi cyfathrebiadau sy’n seiliedig ar ymddygiad ar gael yn Datblygu Cyfathrebiadau sy’n Seiliedig ar Ymddygiad - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (phwwhocc.co.uk)

Efallai y bydd cymorth pellach ar gael gan uned Gwyddor Ymddygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Safon 3.1 –** Dylid datblygu adnoddau gwybodaeth i'r cyhoedd yn unol ag arferion gorau ar gyfathrebu sy'n seiliedig ar ymddygiad.

## Safon 4 – Cydgynhyrchu

**Pam mae hyn yn angenrheidiol**

O dan y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, mae disgwyl i adnoddau gwybodaeth i gleifion gael eu cydgynhyrchu â'r boblogaeth darged. Mae adnoddau a gydgynhyrchir yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwybodaeth, profiad a phersbectif amrywiol yr holl bartneriaid a'r cyfraniad y gall pob unigolyn ei wneud at ffyrdd o weithio sydd o fudd i bawb.

**Arferion Gorau**

Mae gwybodaeth am arferion gorau ar gael yn eang. Mae'r ddolen isod yn darparu canllaw arferion gorau annibynnol ar gydgynhyrchu gwybodaeth i gleifion.

How-to-guide-Coproduction-involving-users-in-developing-health-information.-October-2021-update-2.pdf (learningforinvolvement.org.uk)

**Safon 4.1 -** Dylai'r holl adnoddau gwybodaeth i gleifion gael eu cydgynhyrchu â'r boblogaeth darged pan fyddant yn cael eu hadolygu'n sylweddol. Fel isafswm, dylai'r adnodd gael ei brofi gydag aelodau o'r boblogaeth darged.

**Safon 4.2** – Dylai unrhyw waith profi neu gydgynhyrchu adnoddau gwybodaeth i gleifion sicrhau bod yr ystod ehangaf o leisiau'n cael eu cynrychioli.

## Safon 5 - Cysondeb o ran Dylunio

**Pam mae hyn yn angenrheidiol -**

Er mwyn gwella hyder y cyhoedd yn yr wybodaeth frechu a ddarperir, ac i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth, dylai adnoddau gwybodaeth a gynhyrchir i'r cyhoedd yng Nghymru fod yn rhan amlwg o'r un teulu o wybodaeth a bod yn hawdd eu hadnabod fel rhai sy'n dod o ffynhonnell ddibynadwy.

**Arferion Gorau**

Er mwyn sicrhau cysondeb y cyflwyniad mae'r canllawiau brand canlynol ar gael ar gyfer 'Mae brechu yn achub bywydau'.

**Safon 5.1 -** Dylai fod gan bob adnodd gwybodaeth am frechu i'r cyhoedd logo Ymddiriedolaeth GIG Cymru neu'r Bwrdd Iechyd Lleol a gynhyrchodd yr wybodaeth, ochr yn ochr â'r brand 'Mae brechu yn achub bywydau'

**Safon 5.2** - Dylai'r holl adnoddau sy'n defnyddio'r logo 'Mae brechu yn achub bywydau' (VSL) gydymffurfio â chanllawiau brand 'Mae brechu yn achub bywydau'